



Grŵp RNIB a'r Iaith Gymraeg: Ein Llais Ni

Gweithio gyda'n gilydd

RNIB
Cymru

Yn cefnogi pobl
â cholled golwg
Supporting people
with sight loss


Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cynnwys

- 3 Gair gan ein Prif Weithredwr
- 5 Cyflwyniad
- 7 Cefndir
- 11 Gweithredu
- 12 Cynllunio
- 13 Darparu gwasanaethau
- 14 Cynllun cynnydd
- 39 Cyfeirnodau

Paratowyd gan: Elin Edwards
Rheolwr Cyfathrebu RNIB Cymru
elin.edwards@rnib.org.uk
Mawrth 2016



Datblygwyd gyda chymorth
Gwasanaeth Cynllun Hybu Comisiynydd y Gymraeg
Developed with the support of the
Welsh Language Commissioner's Progress Plan Service

Gair gan ein Prif Weithredwr



Lesley-Anne Alexander CBE
Prif Weithredwr

Pleser yw cyflwyno Cynllun Iaith Gymraeg Grŵp RNIB sy'n nodi ein hymrwymiad i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau a gwybodaeth yn nwy iaith swyddogol Cymru.

Fel RNIB rydym yn unedig dros wneud pob dydd yn well i bawb y mae colled golwg yn effeithio arnyn nhw.

Yn y 15 munud nesaf, caiff rhywun wybod eu bod yn colli eu golwg. I bobl sy'n byw gyda cholled golwg, mae'r byd yn gallu bod yn lle anodd. Rydyn ni am sicrhau bod cysylltiad cynt â phobl sydd newydd gael diagnosis o golled golwg, bod pobl yn cael cefnogaeth i fyw'r bywydau annibynnol maen nhw'n eu dewis, bod cymdeithas yn lle mwy cynhwysol a bod neb yn colli eu golwg yn ddiangen.

Rydyn ni'n gwybod bod bron un rhan o bump o boblogaeth Cymru'n nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg, bod carfan fawr yn byw mewn ardaloedd mwy gwledig ac mai pobl hŷn yw'r rhain yn aml.

I lawer o bobl yng Nghymru, mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddyn nhw. Nid mater o'r hyn sy'n well gan bobl yn unig yw'r opsiwn i ddefnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydyn ni'n gwybod bod llawer o siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n fwy hyderus yn mynegi eu hunain yn Gymraeg, yn teimlo'n fwy hyderus yn cyfathrebu eu hanghenion yn Gymraeg, a'u bod yn meddwl ac yn byw eu bywydau yn Gymraeg. Mae teimlo'ch bod yn gallu mynegi'ch hun a theimlo'n gyfforddus a hyderus yn cyfathrebu'n hollbwysig i fynd i'r afael ag arwahanwydd cymdeithasol ac mae hyn yn hanfodol adeg cael diagnosis.

Mae deddfwriaeth yn ategu'r angen i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Nid yn unig mae dyletswydd gyhoeddus arnon ni i gyfathrebu a darparu yn y ddwy iaith swyddogol yng Nghymru - ond rydyn ni'n credu bod y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn hawl.


Rydyn ni'n ymrwymo i sicrhau cyfieithiadau o ansawdd uchel wrth greu dogfennau dwyieithog o bob math. Mewn cyfarfodydd cyhoeddus rhaid i ni sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gyfrannu yn eu dewis iaith, boed hynny yn Gymraeg neu Saesneg. Rydyn ni eisoes yn darparu nifer o wasanaethau rheng flaen yn ddwyieithog, megis drwy ein Swyddogion Cyswllt Clinigau'r Llygaid, ond gallwn wneud llawer mwy i annog defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu ein hymrwymadau i'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg. Mae'n ymgorffori ymrwymiad RNIB i fod yn uchelgeisiol a chanolbwyntio ar y cwsmer ac yn bwysicaf oll, i fod yna ar gyfer mwy o bobl ddall ac â golwg rhannol wrth i ni geisio treblu ein cyrraedd dros y blynyddoedd nesaf.

Mae Grŵp RNIB wedi ymrwymo y byddwn yn blaenoriaethu darparu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Rydyn ni'n hyderus y byddwn, drwy'r cynllun hwn, yn gwella ein gwasanaethau, ein gwaith codi arian, ein hymgyrchu a'n gweithgareddau cyfathrebu.

Edrychwn ymlaen at hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg ac ateb anghenion ein cwsmeriaid ar draws Cymru benbaladr.

Diolch,



Lesley-Anne Alexander
Prif Weithredwr, RNIB
Mawrth 2016

Cyflwyniad

Fersiynau blaenorol o'r cynllun

Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg cyntaf RNIB Cymru ei gyhoeddi a'i gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 12 Mai 1999.

Daw'r cynllun diwygiedig hwn o ganlyniad i gyd-destun cyfreithiol newidiol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg ac adolygiad o wasanaethau ac adnoddau dwyieithog RNIB. Mae hefyd wedi rhoi cyfle i RNIB adnewyddu ei ymrwymiad at y Gymraeg.

Mae'r cynllun hwn yn berthnasol i weithrediadau Grŵp RNIB yng Nghymru, holl ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr RNIB, a staff RNIB y DU y mae eu gwaith yn ffocysu ar Gymru.

Ein huchelgais a'n hymrwymiad

Arian cyhoeddus yw llawer o gyllid RNIB Cymru. Mae dyletswydd arnon ni felly i sicrhau darpariaeth ddwyieithog i'r cyhoedd yn unol â'n canllawiau cyllido. Yn bwysicach, mae RNIB yn credu bod cynnig gwasanaethau yn iaith ddewisol cwsmer yn rhan annatod o ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid da a chydaddoldeb cyfle mewn cenedl ddwyieithog.

Mae gan un rhan o bump o boblogaeth Cymru sgiliau Cymraeg ac mae disgwyl i hyn dyfu. Mae'r awydd ymysg rhai siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau Cymraeg yn glir. Mae ymchwil a gynhaliwyd dros y ddau ddegawd diwethaf wedi canfod hyn yn gyson ac mae'r awydd hwn ar gynnydd. Nid mater o'r hyn sy'n well gan bobl yn unig yw'r opsiwn i ddefnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydyn ni'n gwybod bod llawer o siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n fwy cyfforddus yn mynegi eu hunain yn Gymraeg, yn teimlo'n fwy hyderus yn cyfathrebu eu hanghenion yn Gymraeg,

yn meddwl ac yn byw eu bywydau yn Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd cwsmeriaid yn agored i niwed. Mae teimlo'ch bod yn gallu mynegi eich hun a theimlo'n gyfforddus a hyderus i gyfathrebu gyda darparwr gwasanaeth yn hollbwysig.

Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu sut y byddwn yn cyflawni hyn wrth ddarparu gwasanaethau yng Nghymru. Bydd RNIB yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg drwy ei weithgareddau a'i wasanaethau a byddwn yn annog siaradwyr Cymraeg sy'n ymwneud â ni i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Byddwn yn ceisio datblygu gwasanaethau sy'n ffocysu ar yr unigolyn, lle mae'r unigolyn hwnnw'n teimlo'n gyfforddus bob amser yn defnyddio Cymraeg neu Saesneg.

Gweledigaeth RNIB

Ein gweledigaeth ni yw byd lle mae pobl ddall ac â golwg rhannol yn mwynhau'r un hawliau, yr un rhyddid, yr un cyfrifoldebau a'r un ansawdd bywyd â phobl â golwg llawn.

Mae RNIB am herio dallineb drwy rymuso pobl sy'n ddall neu sydd â golwg rhannol, dileu'r rhwystrau maent yn eu hwynebu a helpu i atal dallineb.

Yng Nghymru, mae RNIB yn gweithredu o dan frand "RNIB Cymru" ac yn gweithio mewn partneriaeth i helpu'r 110,000 o bobl ddall ac â golwg rhannol yng Nghymru i fyw bywydau llawn ac annibynnol. Cyflawnir hyn drwy gyfuniad o weithgareddau ymgyrchu a darparu gwasanaethau.

Rydyn ni'n darparu ystod eang o wasanaethau gan gynnwys cymorth gyda budd-daliadau lles, Swyddogion Cyswllt Clinigau'r Llygaid mewn clinigau llygaid mewn ysbytai, gwasanaethau Cyflogaeth a Phontio, gwasanaeth Plant a Theuluoedd, gwasanaeth

cynhwysiant digidol, cymorth addysgol a thrawsgrifio. Rydyn ni'n ymgyrchu dros gydraddoldeb a chynhwysiant i bobl â cholled golwg. Rydyn ni'n codi arian ac yn gweithio mewn partneriaeth â llawer o sefydliadau ar draws Cymru i ddarparu gwasanaethau a chynnal ymgyrchoedd.

Mae RNIB Cymru'n cyflogi tua 60 o staff ar draws Cymru, mae tua 100 o wirfoddolwyr yn gysylltiedig â chodi arian a gweinyddu, ac mae gennym 1050 o aelodau.

Mae gan RNIB Cymru...

60

o staff wedi'u cyflogi ar draws Cymru

100

o wirfoddolwyr

1050

o aelodau

Cefndir

Y Cyd-destun cyfreithiol

Cafodd yr egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail bod y ddwy iaith yn gyfartal ei sefydlu a'i chorffori yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993. Yn dilyn y Ddeddf, sefydlwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Yna diddymwyd y Bwrdd ar 31 Mawrth 2012 o ganlyniad i gyflwyno Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ers hynny, mae cyfrifoldeb y Bwrdd dros hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg wedi'i rannu rhwng Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru.


Derbyniodd y Mesur Gydsyniad Brenhinol ym mis Chwefror 2011 sy'n golygu:

- bod statws swyddogol wedi'i sefydlu ar gyfer y Gymraeg yng Nghymru
- sefydlwyd yr egwyddor gyffredinol na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg a fframwaith deddfwriaethol newydd
- gwnaed darpariaeth ar gyfer hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg
- crëwyd darpariaeth am safonau'n ymwneud â'r Gymraeg
- sefydlwyd y ddarpariaeth i ymchwilio ynghylch ymyrryd i'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.



562,000

Nifer y bobl yng Nghymru sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg



Mae gan un rhan o bump o'r boblogaeth sgiliau Cymraeg

Mae'r Comisiynydd yn annibynnol ac mae ganddi gyfrifoldeb dros orfodi dyletswyddau cyfreithiol drwy gyfrwng "safonau". Mae modd gorfodi'r safonau hyn. Caiff y drefn gyfreithiol sy'n ategu'r safonau ei datblygu dros y blynyddoedd nesaf.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar rai sefydliadau yn y trydydd sector i gydymffurfio â'r safonau, ac yn rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd ofyn i sefydliad gydymffurfio â safon. Gallai Gweinidogion Cymru enwi sefydliadau yn y trydydd sector i'w hychwanegu at restr y sefydliadau y mae gofyn iddyn nhw gydymffurfio. Bwriedir i "safonau" ddisodli cynlluniau Iaith Gymraeg.

Wrth gomisiynu gwasanaethau neu ddyrannu grantiau i sefydliadau yn y trydydd sector, bydd angen i sefydliad sy'n cydymffurfio â safonau (fel Llywodraeth Cymru) sicrhau bod rhwymedigaethau perthnasol yn cael eu gwneud mewn perthynas â'r Gymraeg fel amod o gytundeb.

Gyda hyn mewn golwg, mae RNIB wedi penderfynu mabwysiadu cynllun iaith priodol o'i wirfodd, gan ddilyn

fformat y safonau yn unol â chyngor tîm y Comisiynydd, er mwyn dangos ein hymrwymiad i'r egwyddor o driniaeth gyfartal.

Y Cyd-destun Cymdeithasol

Mae gan 562,000 o bobl yng Nghymru, sef un rhan o bump o'r boblogaeth, sgiliau Cymraeg, a'r disgwyl yw y bydd y ffigur hwn yn tyfu dros y degawd nesaf.

Yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin mae canran uchaf y siaradwyr Cymraeg yn byw. Mae ffigurau hefyd yn dangos cynnydd cynyddol yn nifer y siaradwyr mewn ardaloedd yng Nghymru nad ydynt yn rhai sy'n siarad Cymraeg yn draddodiadol. Mae canran y bobl ifanc rhwng 15 a 24 oed sy'n siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu'n sylweddol.

Mae dwyieithrwydd yn llawer mwy cyffredin mewn rhannau eraill o Ewrop nag y mae ym Mhrydain. Mae'r sefyllfa yng Nghymru felly'n bell o fod yn anarferol. Un o'r prif wahaniaethau rhwng cymunedau dwyieithog ac unieithog yw bod pobl ddwyieithog yn gallu dewis pa iaith i'w defnyddio. Mae llawer o ffactorau'n gallu effeithio

ar ddewis iaith unigolyn a gall cymhwysedd mewn iaith amrywio ar draws y pedwar sgil iaith: siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu. Er enghraifft, gallai unigolyn ddewis un iaith wrth ddarllen ac ysgrifennu. Gall rhywun arall ddeall ail iaith yn ei ffurf lafar ac ysgrifenedig ond gall fod yn llai abl i'w siarad neu ei hysgrifennu'n rhugl. Er bod iaith ei hun yn rhan annatod o'r ffordd mae siaradwyr Cymraeg yn mynegi eu hunain, mae RNIB yn gwybod nad yw pob un sy'n siarad Cymraeg yn arbenigwr yn y Gymraeg, yn arbenigwr mewn cyfieithu, nac yn ceisio sgorio pwynt gwleidyddol wrth ddewis siarad yr iaith.

Mae darparu cydraddoldeb cyfle hefyd wrth wraidd ein hagenda wrthwahaniaethu a'n polisiâu Adnoddau Dynol. Byddwn yn sicrhau ein bod yn casglu gwybodaeth ynghylch dewis iaith ar draws y pedwar sgil.

Y cyd-destun marchnata

Ymdriniwyd â bron un o bob deg ymholiad a gyfeiriwyd at Wasanaeth Hawliau, Cyngor a Gwybodaeth RNIB Cymru yn Gymraeg yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r gwasanaeth.

Mae tystiolaeth yn dangos bod y cyhoedd yng Nghymru yn cefnogi gwasanaethau a gynigir yn ddwyieithog ond bod gan gwsmeriaid ddisgwyliadau isel iawn o ran derbyn gwasanaethau dwyieithog a'u bod yn annhebygol hefyd o ofyn am wasanaeth dwyieithog [1].

Bydd RNIB yn creu amgylchedd sy'n annog cwsmeriaid i gyrchu gwasanaethau a deunyddiau yn eu dewis iaith drwy:

- Ddefnyddio'r ddwy iaith yn ffurfiol ac yn gyhoeddus
- Darparu gwasanaethau o'r un safon yn Gymraeg a Saesneg
- Marchnata a hyrwyddo ein gwasanaethau dwyieithog

- Cynnig dewis iaith o'r cychwyn cyntaf
- Bydd staff yn ymwybodol o sut i ymdrin â chwsmeriaid sydd am gyrchu gwasanaethau yn y naill iaith neu'r llall [2].

Yn ddiweddar, canfu adroddiad 2015 Cyngor ar Bopeth "Hefyd ar gael yn Gymraeg" y canlynol: "Dywedodd 95 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaeth Cymraeg sy'n cael ei gynnig o'r cychwyn. Os yn gwneud galwad ffôn, dylid cynnig yr opsiwn i ddefnyddwyr barhau yn Gymraeg o'r dechrau. Ar wefan, dylid gwneud yr opsiwn "Cymraeg" yn fwy amlwg a dylai rhagdudalennau fod yn gwbl ddwyieithog [3]."

Bydd RNIB yn ymdrechu i sicrhau bod y canfyddiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith.

Mae RNIB yn gwybod bod y rhesymau pam nad yw siaradwyr Cymraeg bob amser yn dewis gwasanaethau Cymraeg yn gymhleth.

Er mwyn annog cynnydd yn y galw am ein gwasanaethau Cymraeg, defnydd o'n tudalennau gwe Cymraeg ac ati, bydd angen i ni roi ystod o newidiadau ar waith i annog newid ymddygiad, gan gynnwys:

- defnyddio iaith a therminoleg sy'n glir, heb unrhyw jargon ac yn hygyrch
- bod yn rhagweithiol yn cynnig y cyfle i ddefnyddio a chyrchu gwasanaethau Cymraeg a sicrhau eu bod ar gael yn gyson
- sicrhau nad Saesneg yw'r opsiwn 'diofyn' bob amser er mwyn annog defnyddwyr i beidio â throi at yr 'arfer' oddi ar-lein ac ar-lein
- sicrhau, cyhyd â phosibl, nad opsiwn 'optio i mewn' yw'r Gymraeg a dylunio ein gwasanaethau yn unol â hynny, ac annog defnydd ohoni
- sicrhau bod ein gwybodaeth Gymraeg mor amserol a chyfoes â'r hyn sydd ar gael yn Saesneg
- cyfeirio'n glir at ein gwasanaethau a'n deunyddiau Cymraeg

Mae ymchwil wedi dangos bod gorfod mynd ati'n rhagweithiol i geisio fersiwn Cymraeg yn annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio gwasanaethau Saesneg.

Gobaith RNIB, drwy fabwysiadu'r newidiadau hyn, yw y byddwn yn

- sicrhau cynhwysiant cymdeithasol a chydaddoldeb yng Nghymru
- rhoi dewis go iawn i'r cwsmer
- adlewyrchu ein cymunedau'n gywir
- apelio at ystod ehangach o wirfoddolwyr
- gwella'n gobeithion o sicrhau cyllid gan gyrff sy'n edrych yn ffafriol ar sefydliad sy'n meddu ar bolisi o ddenu gwirfoddolwyr ar draws croestoriad o gymdeithas
- gwella ansawdd ein gwasanaethau



Gweithredu

Bydd y cynllun yn rhan annatod o'n gwaith cynllunio a gweithredu gweithgareddau gwasanaeth, ymgyrchu a phrosiectau.

Bydd rheolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o oblygiadau'r Cynllun ac yn eu deall.

- Cyfarwyddwr RNIB Cymru fydd â'r prif gyfrifoldeb dros weithredu'r Cynllun
- Caiff cynnydd yn erbyn gweithrediad y Cynllun Gweithredu ategol ei fonitro gan dîm rheoli RNIB Cymru
- Bydd gwasanaethau RNIB yng Nghymru'n cofnodi canran y gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg a/neu ymholiadau a wneir yn Gymraeg

Ni chaiff y Cynllun laith Gymraeg hwn ei newid heb gytundeb swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Bydd RNIB yn adolygu ac yn diwygio'r Cynllun bob tair blynedd mewn ymgynghoriad â swyddogion Comisiynydd y Gymraeg.

Bydd Grŵp RNIB yn mesur gweithrediad y Cynllun yn unol â'r cynllun gweithredu a'r amserlenni cysylltiedig.

Mae paratoi a gweithredu cynllun laith Gymraeg yn cyd-fynd yn naturiol gyda gweithredu polisiau cyfle cyfartal ac amrywiaeth. Polisiau perthnasol RNIB:

Dignity at Work - Polisi 53

Recruitment and Selection - Polisi 1

Making printed information available in alternate formats - Polisi 25

Equal Opportunities - Polisi 22

Reasonable Adjustments – Polisi 41

Canllawiau "Tone of Voice" RNIB.

Cynllunio

Wrth gynllunio polisïau, mentrau neu wasanaethau newydd a diwygiedig, bydd RNIB yn asesu'r goblygiadau iaith er mwyn glynu wrth delerau'r Cynllun hwn. Byddwn yn cymhwyso polisïau a mentrau newydd er mwyn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ble bynnag y bo'n bosibl ac yn symud y sefydliad yn nes at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb ar bob cyfle.

Bydd staff sy'n llunio ac yn gweithredu polisïau, mentrau a gwasanaethau newydd yn ymwybodol o'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn ogystal â'r gofynion cytundebol a roddir ar unrhyw sefydliadau partner.

Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth a chyhoeddusrwydd yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg ac yn defnyddio Braille Cymraeg lle bynnag y bo modd.

Byddwn yn datblygu rhestr wirio a fydd ar gael i staff a fydd yn nodi materion i'w hystyried wrth ddatblygu polisïau, gwasanaethau a mentrau newydd sy'n cael effaith yng Nghymru.



Darparu gwasanaethau

Nod Grŵp RNIB yw darparu gwasanaeth cyson a dibynadwy ar gyfer siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru. Fel y nodir yn yr amserlenni byddwn yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr o'r un safon yn y Gymraeg â'r Saesneg drwy:

- sicrhau bod yr holl staff/gwirfoddolwyr yn gwybod sut i gyfeirio unigolion at wasanaethau Cymraeg
- sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn ymwybodol pa staff/gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg (a gweithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd i wneud teclynnau Iaith Gwaith yn fwy hygyrch)
- darparu hyfforddiant a chanllawiau i staff/gwirfoddolwyr er mwyn hwyluso gweithrediad y Cynllun
- dod o hyd i wasanaethau cyfieithu dibynadwy a phroffesiynol o safon uchel er mwyn sicrhau bod yr holl ddeunydd perthnasol yn cael ei gyfieithu'n gyflym ac yn ddibynadwy, a defnyddio Braille Cymraeg lle bynnag y bo modd.

Ymhlith y gwasanaethau dwyieithog a ddarperir gan amrywiol adrannau mae'r canlynol:

Gwasanaeth Hawliau, Cyngor a Gwybodaeth
Ar-lein Heddiw
Gwasanaeth Cyswllt Clinig y Llygaid
Gweinyddiaeth

Gwasanaethau nad ydynt yn cael eu darparu'n ddwyieithog ar hyn o bryd:


Gwasanaeth Plant a Theuluoedd
Cymorth Addysgol
Gwasanaeth Cyflogaeth
Gwasanaeth Pontio
Lleoliadau gwaith Mewnwelediad i'r Dyfodol
Derbynfa


Cynllun cynnydd

Mae'r cynllun yn cynnwys ymatebion RNIB i'r holiadur hunanasesu (a gwblhawyd ym mis Awst 2015) a syniad o lefel ein darpariaeth bresennol ym mhob maes - o 1 i 3. Rydym wedi gosod targedau er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yn yr amrywiol feysydd yn dilyn cyngor gan dîm Comisiynydd y Gymraeg.







Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y ddarpariaeth	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu gynnal eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?
1. Cyfathrebu allanol				
1.1. Wyneb yn wyneb Mae modd i ymwelwyr siarad gydag aelod o staff sy'n siarad Cymraeg os ydyn nhw'n gofyn am hynny.	1	Bydd ymwelwyr yn gallu siarad ag aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg os ydyn nhw'n gofyn am hynny yn unrhyw un o swyddfeydd RNIB yng Nghymru.	UDRh RNIB Cymru	Mawrth 2016
		Bydd RNIB yn sicrhau bod digon o siaradwyr Cymraeg yn bresennol yn eu swyddfeydd yng Nghymru i ymdrin ag ymholiadau yn Gymraeg. Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i berson addas, yn y swyddfa neu dros y ffôn.	UDRh RNIB Cymru	Mawrth 2016
1.2. Dros y ffôn Mae pob swyddog yn cynnig cyfarchiad dwyieithog. Os nad ydyn nhw'n gallu siarad Cymraeg, byddan nhw'n cynnig trosglwyddo'r alwad i swyddog sy'n siarad Cymraeg.	2	Bydd pob aelod o staff yn cynnig cyfarchiad dwyieithog, 'Bore da' neu 'Prynhawn da'.	UDRh RNIB Cymru	Mawrth 2016
		Cyhoeddir canllawiau i staff a gwirfoddolwyr ynghylch pa gamau i'w cymryd wrth ateb y ffôn.	UDRh RNIB Cymru	Ebrill 2016




Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y ddarpariaeth	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu gynnal eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?
		Byddwn yn rhoi system yn ei lle sy'n sicrhau y bydd aelod o staff nad yw'n gallu siarad Cymraeg yn trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg.	UDRh RNIB Cymru	Ebrill 2016
		Bydd prif neges peiriant ateb pob swyddfa'n ddwyieithog yn ein holl swyddfeydd yng Nghymru.	UDRh RNIB Cymru	Ebrill 2016
		Byddwn yn creu rhestr o siaradwyr Cymraeg ym mhob tîm fel y gellir trosglwyddo ymholiadau'n hawdd i'r person cywir.	UDRh RNIB Cymru	Ebrill 2016
<p>1.3. Anfon llythyrau a negeseuon e-bost</p> <p>Rydyn ni'n cyfathrebu'n ddwyieithog ar brosiect neu ymgyrchoedd penodol, ond nid ar bob achlysur.</p>		Byddwn yn nodi ymgyrchoedd a phrosiectau penodol ac yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu'n ddwyieithog ar eu cyfer nhw.	UDRh RNIB Cymru	Ebrill 2016



Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y ddarpariaeth	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu gynnal eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?
		Dylid cyhoeddi dulliau cyfathrebu torfol i gwsmeriaid yng Nghymru yn ddwyieithog bob tro.	UDRh RNIB Cymru	Ebrill 2016
		Os yw'n hysbys bod yn well gan gwsmer dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg, byddwn yn cyfathrebu gyda'r person hwnnw lle bynnag y bo'n ymarferol yn Gymraeg.	UDRh RNIB Cymru	Ebrill 2016
		Bydd RNIB yn cadw cronfa ddata o gwsmeriaid y mae'n well ganddyn nhw dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog.	UDRh RNIB Cymru	Ebrill 2016 (yn unol â chyflwyno OV2)
		Lle nad yw dewis unigolyn yn hysbys, er enghraifft wrth anfon llythyrau safonol, bydd gohebiaeth ysgrifenedig gyda'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.	UDRh RNIB Cymru	Ebrill 2016
<p>1.4. Ymateb i lythyrau a negeseuon e-bost</p> <p>Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth Gymraeg a dderbyniwn. Gall hyn arwain at oedi os bydd angen i ni ddefnyddio cyfieithydd proffesiynol.</p>		Mae croeso i gwsmeriaid anfon gohebiaeth Gymraeg aton ni a bydd y rhai sy'n ysgrifennu yn Gymraeg yn derbyn ateb wedi'i lofnodi yn Gymraeg ar bapur pennawd swyddogol dwyieithog.	UDRh RNIB Cymru	Ebrill 2016




Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y ddarpariaeth	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu gynnal eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?
		Ni fydd gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun yn arwain at oedi.	UDRh RNIB Cymru	Ebrill 2016
		Caiff pob llythyr a dderbynnir yn Gymraeg ateb yn Gymraeg.	UDRh RNIB Cymru	Ebrill 2016
		Yn dilyn cyswllt wyneb yn wyneb neu dros y ffôn yn Gymraeg, caiff unrhyw ohebiaeth ddilynol ei hanfon yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.	UDRh RNIB Cymru	Ebrill 2016
		Bydd RNIB yn cadw cronfa ddata o gwsmeriaid y mae'n well ganddyn nhw dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog – ac yn nodi lefel eu hyder wrth ddefnyddio'r ddwy. Disgwylir i system CRM newydd gael ei chyflwyno ddechrau 2016.	UDRh RNIB Cymru	Ebrill 2016 (yn unol â chyflwyno OV2)
		Bydd papur pennawd a llofnodion e-bost yn cynnwys nodyn ar y gwaelod sy'n croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.	UDRh RNIB Cymru	Mai 2016


Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y ddarpariaeth	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu gynnal eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?
<p>1.5. Datganiadau i'r wasg Caiff ein datganiadau i'r wasg eu hysgrifennu yn Saesneg</p>		Byddwn yn ymdrechu i gyhoeddi'r rhan fwyaf o'r datganiadau i'r wasg yn ddwyieithog. Os nad yw hyn yn bosibl am unrhyw reswm, bydd y datganiad Cymraeg yn dilyn.	Rheolwr Cyfathrebu RNIB Cymru	Mawrth 2016
		Bydd pob datganiad i'r wasg yn cynnwys manylion cynrychiolydd sy'n siarad Cymraeg.	Rheolwr Cyfathrebu RNIB Cymru	Mawrth 2016
<p>1.6 Cyfieithu</p>		Er mwyn hwyluso cyfathrebu gyda chwsmeriaid yn Gymraeg, bydd RNIB yn datblygu ac yn cynnal rhestr o gyfieithwyr cymeradwy ac yn ei darparu i staff.	Rheolwr Cyfathrebu RNIB Cymru	Ebrill 2016
		Er mwyn sicrhau cysondeb o ran brandio a thôn llais yn y naill iaith neu'r llall, byddwn yn creu dogfen "canllaw RNIB i gyfieithwyr".	Rheolwr Cyfathrebu RNIB Cymru	Ebrill 2016
<p>2. Delwedd gorfforaethol a brandio</p>				


Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y ddarpariaeth	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu gynnal eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?
<p>2.1. Delwedd gorfforaethol a brand</p> <p>Mae ein delwedd yn gwbl ddwyieithog, gan gynnwys unrhyw is-benawdau, ac ymdrinnir â'r ddwy iaith yn gyfartal.</p>		<p>Bydd RNIB a'i brif contractwyr yn mabwysiadu delwedd gorfforaethol gwbl ddwyieithog yng Nghymru.</p>	<p>UDRh RNIB Cymru</p>	<p>Mawrth 2016</p>
<p>3. Cyhoeddiadau a chyhoedduswydd</p>				
<p>3.1. Cyhoeddiadau a chyhoedduswydd</p> <p>Rydyn ni'n blaenoriaethu deunyddiau y dylid eu paratoi'n ddwyieithog e.e. gwybodaeth i ysgolion a phobl ifanc neu ardaloedd penodol o Gymru.</p>		<p>Caiff yr holl gyhoeddiadau a'r deunyddiau cyhoedduswydd allanol a gaiff eu dosbarthu i'w defnyddio yng Nghymru eu darparu'n ddwyieithog. Llyfrynnau a phosteri "wyneb i waered" fydd yr opsiwn dewisol.</p> <p>Bydd cyhoeddiadau dwyieithog yn cynnwys pamffledi, llyfrynnau, newyddlenni, cyhoeddiadau corfforaethol a deunydd cyffredinol a gyhoeddir ac a ddsberthir i gwsmeriaid yng Nghymru gan RNIB neu ar ei ran.</p>	<p>UDRh RNIB Cymru</p>	<p>Rhagfyr 2016</p>
		<p>Byddwn yn sicrhau bod y testun Cymraeg o safon uchel, yn cael ei brawfddarllen cyn ei gyhoeddi, ac yn cymryd y gynulleidfa darged i ystyriaeth.</p>	<p>UDRh RNIB Cymru</p>	<p>Mawrth 2016 ac yn barhaus</p>

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y ddarpariaeth	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu gynnal eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?
		Os nad yw'n bosibl cynhyrchu deunydd dwyieithog, caiff fersiynau Cymraeg a Saesneg eu cynhyrchu ar wahân. Yn hyn o beth, bydd y ddau fersiwn o'r un safon, yn cael eu cyhoeddi a'u dosbarthu yr un pryd, ac yn cynnwys nodyn bod fersiwn Cymraeg/Saesneg ar gael.	UDRh RNIB Cymru	Mawrth 2016 ac yn barhaus
3.2. Nodwch a yw'r eitemau canlynol ar gael:				
Cardiau busnes Dwyieithog - Cymraeg a Saesneg yn gyfartal.		Bydd cardiau busnes yn ddwyieithog gyda'r ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder ac amlygrwydd.	UDRh RNIB Cymru	Mawrth 2016 ac yn barhaus
Papur pennawd Dwyieithog - Cymraeg a Saesneg yn gyfartal.		Bydd papur pennawd yn ddwyieithog gyda'r ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder ac amlygrwydd.	UDRh RNIB Cymru	Mawrth 2016
Stondinau codi Yn Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg.		Wrth ddiweddarau stondinau codi, byddwn yn ystyried creu rhai dwyieithog yn hytrach na chreu rhai ar wahân.	UDRh RNIB Cymru	Rhagfyr 2016 ac yn barhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y ddarpariaeth	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu gynnal eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?
		Lle na fydd hyn yn bosibl, byddwn yn sicrhau bod stondinau codi (Cymraeg a Saesneg) yn ymddangos ochr yn ochr â'i gilydd.	UDRh RNIB Cymru	Mawrth 2016
		Bydd deunydd arddangos a gwybodaeth a ddefnyddir mewn arddangosfeydd a digwyddiadau yng Nghymru yn ddwyieithog.	UDRh RNIB Cymru	Rhagfyr 2016 ac yn barhaus
Baneri hysbysebu Yn Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg.		Fel yr uchod lle y bo'n berthnasol.	UDRh RNIB Cymru	Mawrth 2016 ac yn barhaus
Troedynnau e-bost Yn Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg.		Byddwn yn ystyried a allwn gyflwyno troedynnau marchnata awtomataidd dwyieithog ar draws yr elusen.	Rheolwr Cyfathrebu RNIB Cymru	Rhagfyr 2016 ac yn barhaus
		Byddwn yn sicrhau bod troedynnau e-bost personol yn ddwyieithog ar gyfer pob aelod o staff.	UDRh RNIB Cymru	Mawrth 2016 ac yn barhaus






Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y ddarpariaeth	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu gynnal eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?
		Byddwn yn annog siaradwyr Cymraeg i nodi mewn testun plaen eu bod yn hapus i gyfathrebu'n ddwyieithog.	UDRh RNIB Cymru	Mawrth 2016 ac yn barhaus
Deunyddiau marchnata Yn Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg.		Caiff pob deunydd allanol i'w ddefnyddio yng Nghymru ei ddarparu'n ddwyieithog. "Wyneb i waered" yw'r opsiwn dewisol ar gyfer deunyddiau marchnata ynghyd â phosteri dwyieithog.	UDRh RNIB Cymru	Rhagfyr 2016 ac yn barhaus
Ffurflenni cofrestru Saesneg yn unig.		Byddwn yn ymdrechu i ddarparu ffurflenni cofrestru dwyieithog ar gyfer ein digwyddiadau a'n ffurflenni lle bynnag y bo modd.	UDRh RNIB Cymru	Medi 2016
Canllawiau a llyfrynnau Yn Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg.		Caiff pob deunydd i'w ddosbarthu i'w ddefnyddio yng Nghymru ei ddarparu'n ddwyieithog.	UDRh RNIB Cymru	Rhagfyr 2016 ac yn barhaus



Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y ddarpariaeth	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu gynnal eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?
<p>Arwyddion</p> <p>Dwyieithog - Cymraeg a Saesneg yn gyfartal.</p>		<p>Mae RNIB yn ymrwymedig i ddarparu arwyddion gwybodaeth yn ddwyieithog gan gynnwys o fewn ei swyddfeydd yng Nghymru.</p> <p>Yn y dyfodol, bydd arwyddion newydd yn gwbl ddwyieithog gyda'r iaith yn cael eu harddangos yn yr un modd a chyda'r un amlygrwydd.</p>	UDRh RNIB Cymru	Mawrth 2016 ac yn barhaus
<p>Pecynnu</p> <p>Ddim yn berthnasol.</p>		Ddim yn berthnasol		
<p>Bwydlenni</p> <p>Ddim yn berthnasol.</p>		Ddim yn berthnasol		
<p>Gwisgoedd staff</p> <p>Ddim yn berthnasol.</p>		Ddim yn berthnasol		



Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y ddarpariaeth	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu gynnal eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?
4. Y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol				
4.1. Y wefan Rhywfaint o gynnwys Cymraeg ond nid yw wedi'i ddiweddarau.		Byddwn yn sicrhau bod cynnwys Cymraeg newydd yn ymddangos yr un pryd â chynnwys Saesneg.	Timau Cyfathrebu RNIB Cymru & Thîm Digidol RNIB	Mawrth 2016
		Byddwn yn gwneud defnydd o'r gwasanaeth prawfddarllen am ddim a gynigir gan Gomisiynydd y Gymraeg.	UDRh RNIB Cymru	Mawrth 2016 ac yn barhaus
		Wrth gynllunio neu ailddatblygu gwefannau neu unrhyw wasanaeth TG arall, byddwn yn ystyried yr effaith a'r gost o ran marchnata yn y Gymraeg.	Tîm Digidol RNIB	Mawrth 2016 ac yn barhaus
		Wrth gyfeirio at y wefan mewn dogfennau cyhoeddus neu negeseuon e-bost, byddwn yn hyrwyddo: rnib.org.uk/cymru	Cyfathrebu a marchnata RNIB, RNIB Cymru	Mawrth 2016 ac yn barhaus



Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y ddarpariaeth	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu gynnal eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?
<p>4.2. Y Cyfryngau Cymdeithasol</p> <p>Caiff negeseuon eu postio yn yr iaith a siaredir gan y swyddog, felly ar hap a damwain y ceir postiau Cymraeg.</p>	<p>1</p>	<p>Byddwn yn defnyddio ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol fel llwyfan arbrofol creadigol i ddefnyddio'r ddwy iaith. Bydd y rhan fwyaf o'n postiau'n ddwyieithog ond yn cyd-fynd â natur lafar y cyfrwng.</p>	<p>Tîm Cyfathrebu RNIB Cymru; Tîm Marchnata Digidol RNIB</p>	<p>Mawrth 2016 ac yn barhaus</p>
<p>5. Cyfarfodydd cyhoeddus a digwyddiadau</p>	<p>1</p>	<p>Pan fyddwn yn trefnu cyfarfodydd cyhoeddus mawr yng Nghymru, byddwn yn sefydlu arferion safonol ar gyfer darpariaeth ddwyieithog.</p>	<p>UDRh RNIB Cymru</p>	<p>Medi 2016</p>
		<p>Bydd hysbysiadau o bob cyfarfod, digwyddiad a chynhadledd yn ddwyieithog, ac yn cynnwys datganiad y caiff hawl y rhai sy'n mynychu i siarad Cymraeg neu Saesneg ei pharchu.</p>	<p>UDRh RNIB Cymru</p>	<p>Medi 2016</p>
		<p>Bydd angen asesu anghenion cyfieithu cyn cynnal unrhyw gyfarfod cyhoeddus neu gynhadledd. Bydd y cyfleusterau cyfieithu priodol yn cael eu darparu ar sail yr asesiad hwn. Rhoddir rhybudd ymlaen llaw y bydd croeso i unrhyw un siarad Cymraeg os bydd y ddarpariaeth ar gael.</p>	<p>UDRh RNIB Cymru</p>	<p>Medi 2016</p>



Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y ddarpariaeth	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu gynnal eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?
		Gwneir asesiad o'r gofyniad i aelodau staff sy'n siarad Cymraeg dderbyn a chroesawu'r cyhoedd mewn cyfarfodydd.	UDRh RNIB Cymru	Medi 2016
<p>5.1. Dewis iaith ar gyfer mynychwyr</p> <p>Nid ydym yn gofyn am ddewis iaith mynychwyr.</p>	1	Yn ein digwyddiadau, byddwn yn nodi bod croeso i unigolion gyfrannu yn Gymraeg os dyna'u dymuniad, os tybir bod angen cyfleusterau cyfieithu ar y pryd.	UDRh RNIB Cymru	Mawrth 2016 ac yn barhaus
<p>5.2. Amserlen cynhadledd</p> <p>Nid yw'r Gymraeg yn ystyriaeth benodol wrth drefnu cynadleddau.</p>	1	Byddwn yn annog unrhyw siaradwyr gwadd sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn ystod eu hareithiau.	UDRh RNIB Cymru	Mawrth 2016 ac yn barhaus
<p>5.3. Wrth drefnu digwyddiad sy'n agored i'r cyhoedd, pa un o'r datganiadau canlynol sy'n disgrifio'ch sefydliad orau?</p>				
<p>Gwahoddiadau neu ddeunyddiau marchnata</p> <p>Yn Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg.</p>	1	Byddwn yn ymdrechu i ddarparu gwahoddiadau dwyieithog ar gyfer ein digwyddiadau.	UDRh RNIB Cymru	Mawrth 2016
<p>Ffurflenni e.e. archebu, cofrestru, ffurflenni adborth</p> <p>Saesneg yn unig.</p>	1	Byddwn yn ymdrechu i ddarparu ffurflenni dwyieithog ar gyfer ein digwyddiadau lle bynnag y bo modd.	UDRh RNIB Cymru	Medi 2016



Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y ddarpariaeth	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu gynnal eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?
<p>Cyhoeddiadau Yn Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg.</p>		Bydd pob cyhoeddiad i'w ddefnyddio yng Nghymru yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog.	UDRh RNIB Cymru	Rhagfyr 2016
<p>Areithiau/sgyrsiau Saesneg yn unig</p>		Byddwn yn annog defnydd o'r Gymraeg gyda'n siaradwyr cyhoeddus pan fydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael.	UDRh RNIB Cymru	Medi 2016
<p>Arwyddion Dwyieithog - Cymraeg a Saesneg yn gyfartal</p>		Mae RNIB yn ymrwymedig i ddarparu arwyddion gwybodaeth yn ddwyieithog.	UDRh RNIB Cymru	Mawrth 2016
<p>Pecynnau Mynychwyr Saesneg yn unig</p>		Byddwn yn sicrhau, lle bynnag y bo modd, bod gwybodaeth ar gyfer pecynnau mynychwyr yn cael ei chreu'n ddwyieithog.	UDRh RNIB Cymru	Medi 2016
<p>Arddangosfeydd Yn Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg</p>		Caiff gwybodaeth farchnata ddwyieithog ei darparu mewn unrhyw arddangosfa y mae RNIB yn ei mynychu yng Nghymru.	UDRh RNIB Cymru, Tîm Marchnata a Chyfathrebu RNIB	Medi 2016
		Byddwn yn ystyried a oes siaradwr Cymraeg ar gael sy'n gallu mynychu.	UDRh RNIB Cymru	Medi 2016


Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y ddarpariaeth	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu gynnal eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?
6. Gwasanaethau, mentrau ac ymgyrchoedd newydd.				
<p>6.1. Gwasanaethau, ymgyrchoedd a pholisïau newydd</p> <p>Rydyn ni bob amser yn ystyried y Gymraeg wrth gynllunio prosiectau neu ymgyrchoedd newydd.</p>		Caiff rhestr wirio ei chreu a bydd ar gael i staff sy'n cynllunio gwasanaethau, mentrau ac ymgyrchoedd newydd yng Nghymru.	UDRh RNIB Cymru	Medi 2016
		Byddwn yn ceisio sicrhau bod adrannau ar draws RNIB yn ei gyfanrwydd yn ymwybodol o oblygiadau unrhyw brosiect neu ymgyrch a gyflwynir yng Nghymru ac o ofynion yr Iaith Gymraeg.	UDRh RNIB Cymru	Mawrth 2016 ac yn barhaus
<p>6.2. Cynnig gwasanaethau</p> <p>Mae ein holl staff yn ymwybodol o sut rydyn ni'n ymdrin â chais am wasanaethau Cymraeg ac rydyn ni'n ceisio ateb anghenion unigolion.</p>		Caiff y Gymraeg ei hystyried wrth gyflwyno system CRM newydd RNIB. Bydd RNIB yn casglu dewis iaith (ar bapur ac ar lafar).	Tîm Gwasanaethau RNIB Cymru.	Ebrill 2016
<p>6.3. Darparu Gwasanaethau</p> <p>Ddim yn berthnasol.</p>				


Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y ddarpariaeth	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu gynnal eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?
<p>6.4. Darparu cyrsiau hyfforddiant</p> <p>Ni allwn gynnig gwasanaeth Cymraeg ar hyn o bryd.</p>		<p>Byddwn yn archwilio a fydd modd i ni ddarparu cyrsiau hyfforddiant yn Gymraeg yn y dyfodol ac ar gais.</p>	<p>UDRh RNIB Cymru, Adnoddau Dynol RNIB</p>	<p>Medi 2016</p>
<p>6.5. Llinellau cymorth</p> <p>Mae'r neges awtomatig yn ddwyieithog ac mae gwasanaeth Cymraeg ar gael ambell waith, yn dibynnu pa swyddogion sydd ar gael. Nid ydyn ni'n mynd ati'n arbennig i farchnata'r gwasanaeth fel gwasanaeth dwyieithog.</p>		<p>Mae RNIB yn gweithredu llinell gymorth ddwyieithog ar gyfer y Gwasanaeth Hawliau, Cyngor a Gwybodaeth (a leolir yng Nghymru i gwsmeriaid yng Nghymru).</p>	<p>Tîm gwasanaeth Cyngor RNIB Cymru</p>	<p>Mawrth 2016 ac yn barhaus</p>
		<p>Bydd RNIB yn hyrwyddo argaeledd unrhyw wasanaeth ffôn Cymraeg ac yn sicrhau bod aelodau staff a defnyddwyr yn gwybod sut i drosglwyddo galwadau iddo.</p>	<p>Llinell gymorth RNIB</p>	<p>Medi 2016</p>
		<p>Bydd RNIB yn archwilio sut rydyn ni'n hidlo galwadau a wneir i linell gymorth y DU i siaradwr Cymraeg. Caiff protocol ei sefydlu.</p>	<p>Llinell gymorth RNIB</p>	<p>Medi 2016</p>

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y ddarpariaeth	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu gynnal eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?
<p>6.6. Iaith Gwaith</p> <p>Mae rhai swyddogion yn gwisgo bathodynau neu gortynnau iaith Gwaith ond nid ydyn ni'n arddangos unrhyw bosteri.</p>		Byddwn yn darparu troedynnau e-bost i staff sy'n siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i nodi y croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.	Tîm Cyfathrebu RNIB Cymru	Mawrth 2016
		Byddwn yn annog staff i wisgo bathodynau iaith Gwaith.	Tîm Cyfathrebu RNIB Cymru	Mawrth 2016
		Byddwn yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i hwyluso argaeledd posteri a deunyddiau iaith Gwaith hygyrch.	Tîm Cyfathrebu RNIB Cymru	Mawrth 2016 ac yn barhaus
<p>6.7. Gweithio gyda chontractwyr a phartneriaid</p> <p>Nid oes proses swyddogol ond rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'n darparwyr ac felly'n gallu monitro eu hymrwymiad i ddarpariaeth Gymraeg trwy gydol y prosiect.</p>		Byddwn yn rhoi gwybod i unrhyw gontractwyr ein bod wedi ymrwymo i Gynllun Hyrwyddo Comisiynydd y Gymraeg ac i ddarparu gwasanaethau Cymraeg.	UDRh RNIB Cymru	Mawrth 2016 ac yn barhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y ddarpariaeth	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu gynnal eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?
7. Staff a gwirfoddolwyr		Byddwn yn casglu gwybodaeth am sgiliau Cymraeg ein gwirfoddolwyr yng Nghymru er mwyn cydweddu sgiliau gydag anghenion defnyddwyr.	Rheolwr Gwirfoddoli RNIB ar gyfer Cymru	Medi 2016
		Bydd RNIB yn nodi cyfleoedd i recriwtio gwirfoddolwyr Cymraeg ac yn hysbysebu amdanyn nhw'n ddwyieithog.	Rheolwr Gwirfoddoli RNIB ar gyfer Cymru; UDRh RNIB Cymru	Medi 2016
		Bydd RNIB yn sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn gallu darparu gwasanaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg ym mhob swyddfa a phrosiect sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd.	UDRh RNIB Cymru	Ebrill 2016
7.1. Recriwtio staff Rydyn ni'n gofyn am y Gymraeg fel sgil 'dymunol' neu 'hanfodol' ar gyfer staff sy'n delio â'r cyhoedd wrth hysbysebu.		Byddwn ni'n asesu a yw'r Gymraeg yn sgil gofynnol ar gyfer pob swydd newydd.	UDRh RNIB Cymru, Adnoddau Dynol RNIB	Mawrth 2016 ac yn barhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y ddarpariaeth	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu gynnal eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?
<p>7.2. Hysbysebu swyddi gwag</p> <p>Rydyn ni'n paratoi hysbysebion yn ddwyieithog os yw'r Gymraeg yn sgil dymunol neu hanfodol.</p>		<p>Byddwn yn hysbysebu'n ddwyieithog swyddi lle nodir bod y Gymraeg yn sgil dymunol neu hanfodol. Bydd hyn hefyd yn ymestyn cyrraedd y gynulleidfa (e.e. cyfeillion a theuluoedd darpar ymgeiswyr)</p>	<p>UDRh RNIB Cymru, Adnoddau Dynol RNIB</p>	<p>Mawrth 2016 ac yn barhaus</p>
<p>7.3. Ymwybyddiaeth iaith</p> <p>Nid oes unrhyw broses ffurfiol ond mae dogfennaeth ar gael os yw swyddogion yn dymuno ei ddarllen.</p>		<p>Bydd y pecyn sefydlu a ddarperir i staff ar ddechrau eu cyflogaeth yn cyfeirio at wasanaethau Cymraeg.</p>	<p>UDRh RNIB Cymru</p>	<p>Medi 2016</p>
		<p>Caiff cyfleoedd i ddysgu sgiliau Cymraeg eu hamlinellu yn llyfryn sefydlu aelodau staff newydd, ynghyd â'r cynllun iaith Gymraeg hwn.</p>	<p>Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol RNIB, UDRh RNIB Cymru</p>	<p>Medi 2016</p>
		<p>Caiff staff sydd yma eisoes eu cyflwyno i'r cynllun iaith Gymraeg diwygiedig a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau Cymraeg.</p>	<p>Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol RNIB, UDRh RNIB Cymru</p>	<p>Medi 2016</p>

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y ddarpariaeth	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu gynnal eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?
		Cynigir hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i bob cyflogai a gwirfoddolwr.	Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol RNIB, UDRh RNIB Cymru	Medi 2016
7.4. Sgiliau iaith Rydyn ni'n ymwybodol bod rhai swyddogion yn gallu siarad Cymraeg.		Byddwn yn cynnal archwiliad o sgiliau iaith staff (ar bapur ac ar lafar) ac yn creu cofnod.	UDRh RNIB Cymru	Medi 2016
		Bydd RNIB yn archwilio cyfleoedd i ddarparwyr "Cymraeg i Oedolion" ddarparu sesiynau "Cymraeg yn y Gweithle" a chostau cysylltiedig.	UDRh RNIB Cymru, Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol RNIB Cymru	Medi 2016
		Bydd RNIB yn annog ac yn cefnogi staff sy'n dymuno dysgu neu wella'u Cymraeg ac yn annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith lle bynnag y bo'n ymarferol.	UDRh RNIB Cymru	Medi 2016 ac yn barhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y ddarpariaeth	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu gynnal eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?
<p>7.5. Dysgu a defnyddio'r Gymraeg</p> <p>Nid ydym yn cadw cofnod o hyfforddiant Cymraeg ein swyddogion.</p>		<p>Anogir a chefnogir defnydd o'r Gymraeg gan ddysgwyr a siaradwyr rhugl yn y swyddfa.</p>	<p>UDRh RNIB Cymru</p>	<p>Mawrth 2016 ac yn barhaus</p>
		<p>Byddwn yn ymdrechu i greu amgylchedd yn y gweithle sy'n annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg, drwy'r mentrau canlynol:</p> <p>Sesiynau blasu "Cymraeg i Oedolion"</p> <p>Byddwn yn rhoi gwybod i staff am adnoddau fel Cysill sy'n gallu eu helpu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.</p> <p>Byddwn yn cymryd rhan mewn mentrau megis "Diwrnod Shwmae Su'mae" / "Say something in Welsh" day</p> <p>Byddwn yn arbrofi gydag ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg fel "gair yr wythnos"</p> <p>Byddwn yn ystyried cyflwyno arwyddion newydd o amgylch y swyddfa i hyrwyddo ymwybyddiaeth iaith, e.e. "desk / desg" – ac yn sicrhau bod hyn ar gael mewn Braille hefyd.</p>	<p>UDRh RNIB Cymru</p>	<p>Mawrth 2016 ac yn barhaus</p>

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y ddarpariaeth	Amcanion i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu gynnal eich darpariaeth	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?
		Caiff adnoddau a gwariant RNIB (h.y. cyllid uniongyrchol ac amser yn ystod oriau gwaith) eu neilltuo'n dibynnu ar yr asesiad anghenion hyfforddiant a'r blaenoriaethau mewn perthynas â darparu gwasanaethau.	UDRh RNIB Cymru	Medi 2016
		Caiff cynnydd yn erbyn gweithrediad y Cynllun Gweithredu ei fonitro gan uwch dîm rheoli RNIB Cymru.	UDRh Grŵp RNIB	Medi 2016



Cwynion ac Adborth

Bydd trefn gwyno bresennol RNIB yn cynnwys ac yn monitro unrhyw gwynion a wneir mewn perthynas â gweithrediad y Cynllun neu'r gwasanaeth Cymraeg. Mae adrodd ar gwynion cwsmeriaid yn rhan o'n dull monitro cerdyn sgorio cytbwys chwarterol.

Mae RNIB yn croesawu awgrymiadau gan y cyhoedd, ei staff ac aelodau o ran gwella'i Gynllun a'i wasanaeth Cymraeg. Dylai unrhyw awgrymiadau gael eu hanfon i feedback@rnib.org.uk.

Hysbysebu'r cynllun a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd

Bydd RNIB yn hysbysebu ei Gynllun laith Gymraeg i'r cyhoedd, staff, gwirfoddolwyr, aelodau a phartneriaid yn barhaus. Byddwn yn sicrhau bod y rhai rydyn ni'n ymdrin â nhw'n ymwybodol o'r Cynllun a'i gynnwys.

- Bydd copïau o'r Cynllun ar gael yn ein holl swyddfeydd ar ffurf dogfen ddwyieithog am ddim.
- Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth a chanllawiau i staff
- Byddwn yn sicrhau bod copïau o'r Cynllun ar gael i aelodau RNIB a'r cyhoedd yn gyffredinol drwy ei roi ar ein gwefan a'i gyhoeddi yn ôl y gofyn
- Byddwn yn hwyluso gweithdai a chyflwyniadau ar gyfer cleientiaid a rhanddeiliaid yn ôl yr angen.

Cyfeirnodau

Tudalen 11

[1] Ymchwil y Comisiynydd Iaith

[2] Mae gwybodaeth bellach am yr effaith ar frandio, codi arian a gwirfoddoli ar gael yn nogfen y Comisiynydd “Manteision Marchnata Dwyieithog i Elusennau yng Nghymru”. Ymwelwch a bit.ly/1mq9ELk

[3] Ymwelwch a bit.ly/1V191Uq

RNIB Cymru

029 20 82 85 00

cymru@rnib.org.uk

Dilynwch ni ar-lein



facebook.com/rnibuk
facebook.com/rnib.cymru



twitter.com/rnib
twitter.com/rnibcymru



youtube.com/user/rnibuk

© 2016 RNIB

Rhif elusen gofrestrdig 226227, SC039316

rnib.org.uk/cymru

